Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llandwrog
# Llandwrog
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 5ST

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llandwrog yn ysgol wledig, ddwyieithog sydd wedi ei lleoli ym mhentref Llandwrog ar gyrion tref Caernarfon yng Ngwynedd.  Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal o gwmpas.  Sefydlwyd yr ysgol dros ganrif a hanner yn ôl a daw o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae 73 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys saith o blant oed meithrin sy'n mynychu'r ysgol yn rhan amser.  Mae'r niferoedd disgyblion wedi cynyddu dros y chwe blynedd diwethaf.

Tua 5 o'r disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.  Mae 13.5% o ddisgyblion yr ysgol ar gofrestr anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys dau ar ddatganiad.

Daw tua 69% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd.  Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 1998.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llandwrog yw £3,154 sy'n cymharu gydag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd.  Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 75ain uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Llandwrog yn dda oherwydd bod:

- bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- ethos cartrefol, gofalgar a gweithgar yn bodoli, sy'n hybu parch, cwrteisi ac agwedd iach tuag at ddysgu;
- staff yn annog y disgyblion i gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg a'u lles; a
- bod canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefelau uwch na'r disgwyl yn y ddau gyfnod allweddol yn gyson yn cymharu'n dda gyda'r sefyllfa mewn ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan yr pennaeth weledigaeth glir a'i bod yn cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff a'r disgyblion;
- bod yr holl staff yn cydweithio'n hwylus ac effeithiol mewn ffordd sy'n dylanwadu'n bositif ar gyflawniad y disgyblion;
- bod ei llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd ddeallus a chydwybodol; a
- bod ganddi weithdrefnau hunan arfarnu a chynllunio datblygiad effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, dylai'r ysgol:

A1 fireinio'r dulliau cynllunio tymor byr er mwyn rhoi gwell ffocws ar ddatblygu'r medrau allweddol o fewn sesiynau;

A2 rhannu'r arferion gorau o ran yr addysgu ymysg y staff; a

A3 datblygu ymhellach weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i lunio astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith yn rhugl ac effeithiol ar bob math o achlysur ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r modd y mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn rheolaidd yn nodwedd gref. Gall y mwyafrif drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol iawn yn y Gymraeg ar draws yr ysgol, ac yn y Saesneg yng nghyfnod allweddol 2, gan ddefnyddio geirfa eang. Mae eu gwybodaeth o eirfa sy'n benodol i'r meysydd dysgu yn arbennig o dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, ac maent yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn medru darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant da yn y ddwy iaith ac ysgrifennu i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn medru ysgrifennu'n estynedig i safon uchel iawn, gan amrywio arddull mewn gwahanol gyd destunau.

Mae tueddiadau ym mherfformiad disgyblion saith oed sy'n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd (lefel 2 mewn cyfuniad o'r pynciau craidd) yn anwastad dros gyfnod o bum mlynedd. Mae wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn cymhariaeth ag ysgolion sydd â chanran tebyg o ran cinio am ddim. Mae'r canlyniadau hefyd wedi amrywio mewn cymhariaeth â'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru gyfan yn y dangosydd pwnc craidd a hefyd yn y pynciau craidd yn unigol. Mae'r tueddiadau yn debyg yng nghyfnod allweddol 2, lle mai lefel 4 yw'r lefel ddisgwyliedig. Mae hyn yn nodweddiadol o sefyllfaoedd lle bo carfannau disgyblion yn fechan iawn (llai na 10 disgybl ym mlwyddyn 2 a 6 yn flynyddol). Mae data mewnol yr ysgol yn dangos bod canlyniadau disgyblion, ac eithrio'r rhai sydd ag anghenion dwys, wedi bod yn dda iawn dros gyfnod o dair blynedd.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y mwy abl a thalentog yn gwneud cynnydd da iawn. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefelau uwch na'r disgwyl yn gyson uwch mewn cymhariaeth â'r sefyllfa yn ysgolion eraill y teulu a Chymru gyfan. Does dim patrymau amlwg o wahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn o'u cymharu â'r merched. Annheg byddai cymharu cyraeddiadau disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim gyda rheini nad oes â'r hawl gan fod yn niferoedd yn rhy fechan i sefydlu patrwm clir.

**Lles: Rhagorol**

Mae safonau lles a chynhwysiant disgyblion yn uchel iawn drwy'r ysgol. Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, ac mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r hyn sy'n effeithio ar eu lles yn rhagorol ac yn nodwedd gref o fywyd yr ysgol.

Mae'r holl ddisgyblion yn cyfranogi'n gadarnhaol a hapus iawn yn y gwersi ac yn arddangos balchder yn eu gwaith, yn eu hysgol ac yn eu cymuned. Mae ymddygiad ac agwedd disgyblion tuag at holl waith yr ysgol yn ganmoladwy. Roedd canran presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn 95.2%. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd sirol a Chenedlaethol. Mae mwyafrif y disgyblion yn siarad yn aeddfed ynglŷn â'u teimladau ac yn arddangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion. Deallant am bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae bron pob disgybl yn manteisio ar y cyfle i redeg o gwmpas cae'r ysgol yn ddyddiol er mwyn cadw'n heini.

Mae gallu'r disgyblion i gymryd penderfyniadau'n rhagorol. Mae gwaith y cyngor ysgol, y cyngor eco, y 'grŵp gwyrdd' a'r 'grŵp maeth' yn arbennig o effeithiol, gyda'u haelodau'n cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at godi a chynnal safonau lles ar draws yr ysgol. O ganlyniad i'r ffordd gadarnhaol mae'r grŵp wedi ceisio datrys problem benodol, gan ymchwilio ac ymateb i farn eu cyd-ddisgyblion, mae gwaith y 'grŵp maeth' yn arfer sy'n arwain y sector.

Mae'r disgyblion hŷn yn ymfalchïo'n eu gallu i arfarnu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn rheolaidd, gan gynnig sylwadau er mwyn gwella safon eu hymdrechion.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol a chytbwys o brofiadau dysgu i'r holl ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog yn eu herio a'u hymestyn yn effeithiol. O ganlyniad, mae canran uchel yn cyrraedd y lefelau uwch ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Mae'r ysgol yn ymyrryd yn briodol pan mae disgyblion yn tangyflawni mewn llythrennedd drwy ddefnyddio rhaglenni penodol sy'n effeithio'n gadarnhaol ar y safonau. Mae'r athrawon yn asesu a monitro grwpiau o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn llwyddiannus ac yn cynllunio tasgau gwahaniaethol ar gyfer holl ystod gallu'r disgyblion yn effeithiol.

Mae'r cynlluniau tymor hir a chanolig yn nodi'n glir cyfleodd i ddatblygu medrau'r disgyblion. Nid yw'r dulliau cynllunio tymor byr yn rhoi digon o ffocws ar ddatblygu medrau allweddol y disgyblion o fewn sesiynau ac o ganlyniad, nid yw bob amser yn glir pa fedrau sy'n derbyn sylw.

Mae'r ysgol hefyd yn darparu nifer o brofiadau dysgu gwerthfawr y tu allan i oriau'r ysgol sy'n cyfoethogi'r dysgu. Mae gan yr ysgol gysylltiad agos gyda'r gymuned, er enghraifft mae'r disgyblion yn cymryd rhan flaengar yn nathliadau Gŵyl Ifan y pentref ac yn gwneud defnydd helaeth o'r cae chwarae cymunedol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ystyried bod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o fewn eu cymuned leol.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn greiddiol ac yn treiddio drwy holl weithgareddau'r ysgol gyda'r disgyblion yn elwa o ymweliadau gan feirdd ac artistiaid preswyl, actorion ac enwogion eraill.

Mae'r gweithgareddau i ddatblygu gwybodaeth disgyblion o gynaladwyedd a phwysigrwydd diogelu a gwarchod yr amgylchfyd yn rhan annatod o arferion yr ysgol. Mae'r cyfleoedd i ymestyn eu profiadau fel dinasyddion byd-eang hefyd yn dda.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn dda, gyda'r athrawon yn ymateb yn ddeallus i anghenion y disgyblion. Yn yr addysgu gorau, gwelir cwestiynu treiddgar, cyflymder pwrpasol, disgwyliadau uchel ac anogaeth at ddysgu annibynnol. Yn yr ychydig iawn o wersi llai llwyddiannus a arsylwyd, nid oedd cyflymder yr addysgu mor effeithiol.

Mae perthynas waith lwyddiannus iawn yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ym mhob dosbarth gyda'r naill yn dangos parch a chwrteisi tuag at y llall. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn hynod effeithiol yn eu cefnogaeth i'r disgyblion. Mae rheolaeth dosbarth yn gyson effeithiol drwy'r ysgol ac mae'r athrawon yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu effeithiol sy'n cofnodi cyrhaeddiad y disgyblion yn glir. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol mewn rhai dosbarthiadau, ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae adroddiadau i rieni yn cwrdd â gofynion statudol gyda'r wybodaeth briodol yn ei le.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol lle caiff pob disgybl ei barchu a'i werthfawrogi. Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n dda ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae gan yr ysgol dulliau effeithiol i hyrwyddo disgyblaeth bositif. O ganlyniad, mae ethos yr ysgol yn gadarnhaol iawn, ac mae datblygiad personol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol disgyblion yn cael ei ddatblygu'n llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol systemau trwyadl ar gyfer adnabod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sy'n galluogi'r athrawon i drefnu darpariaeth bwrpasol ac effeithiol ar eu cyfer. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn briodol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a'u rhannu â'r rhieni. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n effeithiol iawn ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol arbenigol.

Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r cymhorthyddion i gefnogi disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol. Maent i gyd, gan gynnwys disgyblion ag anghenion corfforol a meddygol, yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol gydag ethos deuluol a diogel iawn. Caiff yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac i holl feysydd y ddarpariaeth. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb a pharch tuag at amrywiaeth yn effeithiol trwy waith ar ddinasyddiaeth fyd eang, rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol a lles.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel i ddisgyblion. Mae'r ystafelloedd dysgu, gan gynnwys y dosbarth sydd yn y neuadd yn darparu amgylchedd addas ar gyfer dysgu. Mae'r adeilad a'r tir oddi amgylch yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Ceir arddangosfeydd symbylus ar draws yr ysgol gyda amrywiaeth o adnoddau addas sy'n cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.

Gwneir defnydd da o'r ardal tu allan, sydd yn cynnwys y cyfleusterau cymunedol, i gynnal ystod o weithgareddau gwerthfawr. Hefyd fe fanteisir yn effeithiol ar gyfleusterau chwaraeon yr ardal i ychwanegu at y cyfleoedd dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff a'r disgyblion, gan roi cyfeiriad strategol pwrpasol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r pennaeth, a'r staff yn cydweithio'n hwylus ac effeithiol mewn ffordd sy'n dylanwadu'n bositif ar gyflawniad disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir sy'n cael eu cyflawni'n dda. Cefnogir datblygiad proffesiynol parhaus y staff trwy system rheoli perfformiad effeithiol sydd yn gosod targedau perthnasol ar gyfer gwella unigolion o fewn cyd-destun yr ysgol.

O dan arweiniad cadeirydd ac is-gadeirydd profiadol iawn, mae gan y corff llywodraethol ymwybyddiaeth gadarn o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Cyflawna'r corff ei ddyletswyddau'n gydwybodol iawn. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth glir o ddata perfformiad yr ysgol dros gyfnod. Cynigant gefnogaeth ddefnyddiol fel ffrind beirniadol, gan herio'r pennaeth yn briodol. Mae'r corff llywodraethol, ar y cyd â'r pennaeth, wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer dosrannu cyfrifoldebau er mwyn cefnogi'r ysgol ymhellach yn y broses o fonitro a gosod targedau.

Llwydda'r ysgol i roi sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael ag agweddau'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion gan gynnwys sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol llwyddiannus. Mae hyn yn cael dylanwad bositif ar safonau ar draws yr ysgol. Mae'r staff yn cydweithio'n agos gydag ysgolion y clwstwr i ddatblygu'r cwriclwm a gweithdrefnau asesu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunan arfarniad o ansawdd da ac mae'n adnabod yn glir y mwyafrif o'r ardaloedd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi gwneud pob ymdrech i gynnwys barn yr holl staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion hŷn yn y broses hunan arfarnu.

Mae systemau hunan arfarnu cynhwysfawr yn rhan greiddiol o waith yr ysgol. Mae'n broses effeithiol sy'n cynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi ac arfarnu gwaith y disgyblion. Mae deilliannau'r broses hon yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.

Cynhyrchir y cynllun datblygu ysgol, sydd o ansawdd da, ar sail arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o fewn y broses hunan arfarnu. Mae cynlluniau priodol wedi eu cynnwys yn glir ar gyfer y tair blynedd nesaf. Yn y cynllun datblygu presennol, mae cyfeiriad clir at flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, camau i'w cymryd, meini prawf llwyddiant, amserlen, cost, a nodi'r person sydd â chyfrifoldeb.

Mae'r athrawon yn perthyn i nifer o rwydweithiau o arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill y clwstwr, er enghraifft, rhwydwaith penaethiaid, a grwpiau codi safonau disgyblion mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Yn fewnol, mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod a rhannu arferion da ym maes dysgu ac addysgu. Mae'r rhwydweithiau hyn yn dylanwadu'n bositif ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau strategol effeithiol sy'n ymestyn y ddarpariaeth a chodi safonau disgyblion. Mae gweledigaeth y pennaeth, wrth sefydlu a hyrwyddo partneriaethau sydd o fudd i addysg, lles a datblygiad y disgyblion, yn nodwedd gref.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda rhieni a gofalwyr ac mae ymatebion yr holiaduron yn cadarnhau hyn. Maent yn cyfrannu'n effeithiol mewn sawl cyd-destun ac yn cyfoethogi profiadau addysgol a chymdeithasol y disgyblion, er enghraifft, drwy rannu arbenigedd mewn meysydd megis celf, cerdd, pêl droed a'r Urdd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd sylweddol ac effeithiol o'r gymuned ac adnoddau cymunedol. Mae aelodau o'r gymuned yn cael eu gwahodd i'r ysgol yn rheolaidd i weithio gyda'r disgyblion ac i ehangu eu gwybodaeth mewn amryw o bynciau gan gynnwys y byd gwaith. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at ddealltwriaeth y disgyblion am fywyd o fewn eu cymuned.

Mae trefniadau trosglwyddo llwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd lleol a'r clwstwr o ysgolion cynradd. Mae cyfleoedd i athrawon ymweld â'r ysgolion hyn i rannu arferion da a hefyd i gynorthwyo'r broses cymedroli a chyd safoni. Mae cyswllt buddiol gyda meithrinfeydd lleol a'r grŵp 'Ti a Fi', sy'n cwrdd yn wythnosol yn yr ysgol. Mae hyn yn hwyluso'r broses gychwyn yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda Phrifysgol Bangor a Choleg Menai fel rhan o'r broses o ddatblygu sgiliau proffesiynol athrawon a chymorthyddion, ac ar gyfer hyfforddi darpar athrawon. Mae ganddi bartneriaeth agos iawn gyda'r awdurdod lleol a chwmni Cynnal wrth ddatblygu dogfennau a chynllunio'r cwricwlwm.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol gyflenwad digonol o staff cymwys i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol ac maent yn defnyddio adnoddau yn addas. Lle nad oes arbenigedd ymysg y staff llawn amser, mae'r ysgol yn cyflogi staff ag arbenigedd fel cerddoriaeth ar delerau rhan amser. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel tîm ac mae cyfleoedd priodol iddynt ddatblygu eu sgiliau proffesiynol.

Mae’r ysgol yn bodloni gofynion statudol y Cytundeb Cenedlaethol ar ‘Godi Safonau a Mynd i’r Afael â Baich Gwaith’ ac mae’r trefniadau ar gyfer sesiynau cynllunio, paratoi ac asesu yr athrawon yn cael dylanwad bositif ar y cynllunio a’r asesu. Mae trefniadau trylwyr yn eu lle ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr, yn monitro’r gyllideb yn briodol. Maent yn rheoli’r cyflenwad da o adnoddau sydd ar gael ar gyfer holl anghenion yr ysgol yn effeithiol gan sicrhau y gwneir y defnydd gorau ohonynt. Hefyd mae adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu rheoli a’u cadw’n dda.

O ystyried y deilliannau a’r defnydd bwriadus o’r cyllid sydd ar gael, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

**Atodiad A: Dadansoddiad data**

Mae carfan y disgyblion ym mhob blwyddyn ysgol yn isel (llai na 10) ac o ganlyniad mae perfformiad pob disgybl yn cael effaith sylweddol ar y data.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 wedi amrywio dros gyfnod o bum mlynedd, gyda'r tueddiadau'n anwastad ar gyfer y canran sy'n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd (lefel 2 mewn cyfuniad o'r pynciau craidd sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth), a lefel 2 yn y Gymraeg. Mae'r tuedd i lawr yn y canran sy'n cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn gyson yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Er hynny, mae canran y disgyblion saith oed a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3) dros y tair blynedd ddiwethaf mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a Chymru gyfan. Nid oes patrwm o wahaniaeth rhwng disgyblion sydd â'r hawl i brydau am ddim o'u cymharu â rheini sydd heb yr hawl. Yn gyffredinol, mae canlyniadau bechgyn wedi bod yn uwch na chanlyniadau merched dros gyfnod o bum mlynedd.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 1 gyda chanlyniadau ysgolion tebyg ar draws Cymru gyfan o safbwynt y canran sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson yn y 50% isaf dros gyfnod o bum mlynedd, heblaw am yn 2008-2009 pan oeddent yn y 25% uchaf.

Mae cyraeddiadau disgyblion cyfnod allweddol 1 mewn cyfuniad o ddarllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol gyda'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru gyfan dros y tair blynedd ddiwethaf.

Heblaw am yn 2011, mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 hefyd wedi amrywio dros gyfnod o bum mlynedd, gyda'r tueddiadau ar i lawr ar gyfer y canran sy'n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd (lefel 4 mewn cyfuniad o'r pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth), a lefel 4 ym mathemateg. Mae'r tuedd yn anwastad yn y canran sy'n cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn Cymraeg ac ar i fyny mewn Saesneg a gwyddoniaeth.

Er hynny, yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru ym mhob pwnc craidd ac yn y dangosydd pwnc craidd.

Mae canran y disgyblion 11 oed a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) dros y tair blynedd ddiwethaf mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn dangos tuedd

ar i fyny ac yn sylweddol uwch na’r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru gyfan. Nid oes patrwm o wahaniaeth rhwng lefelau perfformiad disgyblion sydd â’r hawl i brydau am ddim o’u cymharu â rheini sydd heb yr hawl nac o gymharu perfformiad y bechgyn gyda pherfformiad y merched.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt y canran sydd â’r hawl i ginio am ddim, mae canlyniadau’r ysgol ar gyfer y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf.

Mae cyraeddiadau disgyblion cyfnod allweddol 2 mewn cyfuniad o ddarllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth yn dangos tuedd ar i fyny ac yn 2010-2011 roedd yn cymharu’n ffafriol gyda lefelau cyrhaeddiad y teulu o ysgolion tebyg a Chymru gyfan.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Holiaduron y dysgwyr

Mae'r dysgwyr i gyd yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os fyddan nhw'n poeni, yn gofidio neu os fyddan nhw'n gweld eu gwaith yn anodd. Mae pob un yn teimlo bod yr ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd, yn eu dysgu sut i aros yn iach ac yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio. Mae pob un yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent hefyd yn teimlo bod y gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith a bod gan yr ysgol ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron. Mae bron pob un yn teimlo bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud ei gwaith. Mae pob un o'r farn bod pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

### Holiaduron y rhieni/gofalwyr

Mae'r rhieni/gofalwyr i gyd yn cytuno neu gytuno'n gryf eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol a bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Maent yn teimlo bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol ac wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yno. Teimlant fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, bod yr addysgu'n dda a bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da. Maent yn teimlo bod y staff yn disgwyl i'r disgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau. Teimlant fod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau a bod yr ysgol yn annog y disgyblion i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rheini/gofalwyr i gyd yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn a'u bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Maent i gyd hefyd yn teimlo bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb, a'u bod wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol, bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch a bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion penodol. Maent hefyd yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar waith y dosbarth.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Ray Owen | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Michael Hayes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tracy Jones | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |